Update / Diweddariad

# Agreed Syllabus Conferences 2022
# Cynadleddau Meusydd llafur Cytunedig 2022

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

# Crynodeb o’r ddeddfwriaeth– nodau’r meusyddd llafur cytynedig

- Ni fwriedir i'r maes llafur cytunedig fod yn gynllun gwaith. Yn hytrach, bwriedir iddo fod yn ganllaw ac yn bwynt cyfeirio cyfreithiol defnyddiol i ysgolion er mwyn eu helpu i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol ar gyfer eu dysgwyr sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Mae dull Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd ac, fel y cyfryw, dylai pob maes llafur cytunedig gydnabod ac adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth gyflawni eu cwricwla eu hunain. Un o fwriadau'r canllawiau statudol hyn ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng pwyslais rhwng llyw canolog Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r gofynion o ran gwneud penderfyniadau lleol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, fel y nodir mewn meysydd llafur cytunedig ledled Cymru. Felly, mae'r canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg wedi'u hysgrifennu fel sail i'r maes llafur cytunedig. Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel ei faes llafur cytunedig, caiff wneud hynny. Yn y pen draw, mater i'r darparwr fydd sicrhau y caiff addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg anenwadol ei darparu'n blwraliaethol.

- Dylai meysydd llafur cytunedig gydnabod, er y dylai pob ysgol addysgu eu dysgwyr am y prif grefyddau a'u traddodiadau yng Nghymru, fod credoau eraill (gan gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol megis dyneiddiaeth ac anffyddiaeth) bellach yn rhan gydnabyddedig o fywyd mewn ardaloedd lleol yng Nghymru a thu hwnt. Adlewyrchir hyn yn y Ddeddf sy'n nodi'r canlynol am y maes llafur cytunedig:
  - rhaid iddo adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
  - rhaid iddo hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

# Y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i sefydlu'r gydberthynas rhwng y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Rhaid i awdurdodau lleol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ystyried Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys y canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytunedig. Y maes llafur cytunedig yw'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg mewn ysgolion a lleoliadau, felly mae'n hanfodol bod y maes llafur cytunedig yn cydnabod ac yn adlewyrchu dull Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg er mwyn taro cydbwysedd a chynnal cydlyniaeth ym mhob rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn galluogi Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i sefydlu'r gydberthynas hon rhwng y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, a hynny'n hyderus. Mae hyn yn cynnwys canllawiau er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod ehangder a dyfnder priodol o fewn crefydd, gwerthoedd a moeseg gan gydnabod egwyddor sybsidiaredd ar yr un pryd.

# Penderfyniad Lleol

- Mae CGM yn cael ei benderfynu’n leol
- Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i benderfynnu are ei maes llafyr ei
- Yr ALl sy’n galw Cynhadledd maes llafur cytunedig (CMLC)
- Penderfyniad yr All, yw derbyn neu beidio, y maes llafur cytunedig paratowyd gan y CMLC
- Mae’r cynghorwy’r arbenigol a’r CMLC ond yn cynghori’r ALl.
- Byddai'n arfer da cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg neu gynrychiolydd yr ALl yn y trafodaethau CMLC i gynorthwyo gydag eglurder a dealltwriaeth.
- Mae’r ddeddfwriaeth sydd wedi’i chynnwys yn y canllawiau wedi’i hysgrifennu a’i chytuno gan Lywodraeth Cymru a’i Gwasanaethau Cyfreithiol, nid gan y tîm ehangach sy’n ymwneud â drafftio’r canllawiau CGM. Rhaid i bob CMLC ystyried y Fframwaith CaW sy'n cynnwys y crynodebau cyfreithiol. Mae'n bwysig felly nad yw'r ddeddfwriaeth ynghylch CGM yn cael ei newid i adlewyrchu pryderon lleol. Os yw maes llafur cytûn yn cynnwys diwygiadau i’r ddeddfwriaeth, neu ddehongliadau lleol ohoni, gallai’r ALl adael ei hun yn agored i heriau cyfreithiol ac efallai na fydd yn gymwys i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru.

# Negeseuon pwysig wrth paratoi maes llafur cytunedig

- Mae canllawiau statudol CGM yn cael eu hystyried a'u llywio gan ymarferwyr, darparwyr addysg  a rhanddeiliaid. Mae CYSAGauC wedi cael dweud eu dweud drwy gydol y broses adeiladu ac mae'r holl sylwadau wedi'u hystyried yn y canllawiau terfynol.
- Bydd y Fframwaith CiG a chanllawiau CGM yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr pwnc a dysgu proffesiynol. Pe bai CMLC yn dewis dilyn llwybr arall, a fydd ganddo'r gallu a'r arbenigedd i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi eu maes llafur cytûn lleol?
- Mae'n rhaid i bob ysgol yng Nghymru 'roi sylw' i ganllawiau CGM ar Hwb fel rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Felly, gallai unrhyw wyro wrth y geiriad hwnnw o fewn maes llafur cytundeig achosi dryswch diangen a byddai'n effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith.
- Ystyried effeithiau gwyro sylweddol oddi wrth y canllawiau statudol a'r tensiwn y byddai hyn yn ei greu i ysgolion
- Consider the relevance of the agreed syllabus to different types of schools and the practitioners who will be designing their curriculum in line with CiG a CGM guidance.
- Mae angen i'r maes llafur cytunedig fod yn agored i'r gwahanol ddulliau o gyflwyno CGM ar draws ysgolion yn yr awdurdod lleol.
- Mae angen iddo fod yn hygyrch i gynulleidfa eang ac mae angen ystyried darllenadwyedd, hyd a dyblygu dogfennau eraill.
- Pam y byddai CMLC yn dymuno gosod cyfyngiadau ychwanegol ar ysgolion lleol nad ydynt wedi'u gosod ar ysgolion eraill ledled Cymru?

# Negeseuon pwysig wrth paratoi maes llafur cytunedig

- Os yw’r maes llafur cytunedig yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol, gofynnwch y cwestiwn, ‘A yw’r adrannau hyn yn ddefnyddiol ac yn briodol? A ydynt yn symud yn rhy bell oddi wrth y Fframwaith CiG a/neu ganllawiau CGM?
- Mae angen i'r maes llafur cytunedig sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofyniad am CGM gwrthrychol, beirniadol a lluosog.
- Nid yw’n cael ei argymell bod yr ALl yn mabwysiadu’r canllawiau CGM ar Hwb trwy ddarparu dolen iddo ar wefan y cyngor yn unig.
- Ni argymhellir codi’r testun o’r canllawiau CGM ar Hwb a’i roi mewn PDF neu gopi caled, gan fod hyn yn dileu’r dolenni sydd wedi’u mewnosod yn y canllawiau i rannau eraill o’r Fframwaith CiG.
- Ni argymhellir diwygio’r testun o’r canllawiau CGM ar Hwb, na’r crynodeb cyfreithiol ar CGM, gan y gall hyn arwain at ddryswch a bod yn gamarweiniol, yn enwedig i ysgolion ac ymarferwyr.
- Byddai'n well gosod unrhyw faterion neu gyfarwyddiadau lleol y mae'r CMLC am eu codi neu eu hamlygu i'w hysgolion ar wahân o fewn y maes llafur cytunedig.
- Adlewyrchir hawliau plant yn y Fframwaith CiG a'r canllawiau CGM. A yw'r maes llafur cytûn yn adlewyrchu hawliau plant hefyd?

# Ymateb LlG i gwestiynau CYSAG

1. For the interim period there is a need for two agreed syllabi which require two ASC’s:
   1. Old curriculum – National Exemplar framework which has previously been adopted or adapted by the majority of SACRE’s. If it has been accepted within the last 5 years there is no need for an ASC at this time.
   2. New Curriculum – locally determined agreed syllabus having ‘regard to’ the CfW Framework and the RVE guidance, recommended by a newly constituted SAC.
2. It is the Local Authority’s decision as to whether the adoption of the recommended agreed syllabus is a delegated responsibility or should be presented to full Council for Cabinet decision.
3. Allocation of time for mandatory RVE within the CfW is a matter for the individual school. The SAC should assume sufficient time will be allowed.
4. The legislation on monitoring compliance in RVE has not changed is still rests within Estyn.

# Enghreifftiau o sut mae sefydiadau gwahanol / ALL wedi ymateb

- Libby Jones – Wrexham SACRE / CYSAG Wrecsam
- Elizabeth Thomas – Church in Wales / Egwlys yng Nghymru

# Camau Nesaf

1. Rhannu'r gwybodaeth o fewn eich CYSAG a'ch CMLC.
2. Os mae cwestiynau yn codi o'r wybodaeth hyn neu yn eich cyfarfodydd yna cysylltwch a mi neu ysgrifennydd CCYSAGAuC. WASACRE.
3. Cymerwch mantais o gyfleoedd hyfforddiant:
   - 'A children's rights approach to Religion, Values and Ethics' by the Children's commissioner for Wales on Tuesday 26th of April

   hiips://www.eventbrite.co.uk/e/cyfle -hyfforddi-sesiwn-saesneg-training-opportunity-english-session-tickets-310439000407
   - Policy insight  event hosted by Welsh Government showcasing the national online Professional Learning recourses for RVE being supported by WASACRE.

   hiips://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k -o3QIzEdh5Eu5nA5bErWa5UNzdUWU1BSDg5RUZaN0ZETVFDNzY5QjRGMC4u